

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Darpariaethau i Gymru ym Mesurau Senedd y DU: y diweddaraf

Gorffennaf 2011

Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Mai 2010 ac
araith y Frenhines ar ôl hynny yn cyhoeddi rhaglen
ddeddfwriaethol y Llywodraeth newydd, cyhoeddodd
y Gwasanaeth Ymchwil bapurau yn amlinellu
darpariaethau allweddol i Gymru pan gyhoeddwyd
Mesurau Seneddol perthnasol San Steffan. Mae'r rhain
wedi bod yn gysylltiedig â'r *Mesur Seneddol yngylch Lleoliaeth*, y *Mesur Seneddol yngylch Cyrff Cyhoeddus*,
y *Mesur Seneddol yngylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol*, y *Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd y DU a Mesur Addysg Senedd y DU*.

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am
Fesurau Seneddol sy'n mynd drwy San Steffan ar hyn o bryd.

Gwasanaeth
Ymchwil



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocratiaidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliad.cymru.org/bus-assemblies-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:
Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camareiniol na difrifol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Darpariaethau i Gymru ym Mesurau
Senedd y DU: y diweddaraf

Gorffennaf 2011

Alys Thomas

Rhif dogfen: 11/047

Gwasanaeth
Ymchwil



Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Y Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth	2
2.1. Pwerau Fframwaith	2
2.2. Darpariaethau Cymru a Lloegr	3
3. Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus [HL]	6
3.1. 2.1. Y Mesur Seneddol	6
3.2. Uno Cyrff Amgylcheddol	6
3.3. S4C	9
3.4. Gwelliannau eraill	10
4. Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol	12
5. Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd y DU	16
6. Mesur Addysg Senedd y DU	18
Atodiad 1 Cymalau sy'n gymwys i Gymru yn y Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth [HL 71]	21

Darpariaethau i Gymru yn Neddfwriaeth San Steffan : y diweddaraf

1. Cyflwyniad

Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Mai 2010 ac arraith y Frenhines ar ôl hynny yn cyhoeddi rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth newydd, cyhoeddodd y Gwasanaeth Ymchwil bapurau yn amlinellu darpariaethau allweddol i Gymru pan gyhoeddwyd Mesurau Seneddol perthnasol San Steffan.

Roedd rhai o'r darpariaethau hyn yn gymalau a oedd yn rhoi "pwerau fframwaith" i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ganiatau iddo wneud Mesurau o dan Rhan 3, Atodlen 5 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ("Deddf 2006"). Fodd bynnag, yn dilyn y bleidlais gadarnhaol yn y refferendwm ar 3 Mawrth 2011 a chymeradwyo *Gorchymyn Llywodraeth Cymru 2006 (Cychwyn Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed ac Addasiadau) 2011*¹ ar 29 Mawrth 2011 gan y Cynulliad, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bellach y cymhwysedd ddeddfwriaethol i wneud Deddfau'r Cynulliad mewn 20 pwnc. Mae'r papur hwn, felly, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y darpariaethau mewn Mesurau Seneddol sy'n mynd drwy San Steffan ar hyn o bryd nad ydynt bellach yn berthnasol i'r setliad datganoli fel mae'n sefyll yng Nghymru ar 5 Mai 2011.

Mae datblygiadau hefyd mewn cysylltiad â darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru mewn Mesurau Seneddol nad ydynt yn deillio o ganlyniad y refferendwm. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf hefyd am y datblygiadau hyn.

¹ *Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cychwyn Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed ac Addasiadau) 2011*,

2. Y Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth

2.1. Pwerau Fframwaith

Cyhoeddwyd y fersiwn gyntaf o'r *Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth* ym mis Rhagfyr 2010. Gellir gweld copi o bapur gwreiddiol y Gwasanaeth ymchwil [yma](#). Rhoddodd y Mesur Seneddol gymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â thri mater²:

- refferenda lleol ynghylch lefelau arfaethedig y dreth gyngor;
- ceisiadau cynllunio a gorfodaeth;
- y system Cyfrif Refeniw Tai (HRA) a Chymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (HRAS) yng Nghymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Femorandwm Esboniadol³ a oedd yn esbonio nad yw'r materion a gaiff eu rhestru yn y pwerau fframwaith yn y Mesur Seneddol wedi cael eu nodi i'r un manylder yn Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ond maent eisoes yn dod o fewn y pynciau ehangach yn yr un Atodlen. Yn benodol:

- byddai materion 11.9 i 11.11, sy'n ymwneud â chyfrifon awdurdodau lleol, benthyca a chymhorthdaliadau mewn perthynas â'u swyddogaethau tai, yn dod o dan y pennawd "Housing and housing finance" ym mharagraff 11 yn rhan 1 o Atodlen 7;
- byddai mater 12.19, sy'n ymwneud â refferenda ar gynyddu'r dreth gyngor yn dod o dan y pennawd "Local government finance" ym mharagraff 12; a
- byddai materion 18.4 i 18.7, sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio a chamau gorfodi yn dod o dan y pennawd "Town and country planning" ym mharagraff 18.

Esbonia'r Memorandwm ymhellach:

This means that in the event of an affirmative vote in the referendum (due to be held on 3 March 2011), the Assembly would be able to legislate in relation to these matters.⁴

O ganlyniad i'r bleidlais gadarnhaol yn y refferendwm, mae'r cymalau hyn wedi cael eu dileu o'r Mesur Seneddol.

² Swyddfa Cymru, Ysgrifennydd Cymru yn croesawu Mesur Lleoliaeth i drosglwyddo pwerau i gymunedau, 13 Rhagfyr 2010

³ [Datganiad Ysgrifenedig gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyflawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, Y Bil Lleoliaeth, 14 Rhagfyr 2010](#). Memorandwm Llywodraeth Cynulliad Cymru am Bwerau Fframwaith i Gymru yn y Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth, Rhagfyr 2010

⁴ Ibid.

2.2. *Darpariaethau Cymru a Lloegr*

Bydd nifer o ddarpariaethau yn gymwys i Gymru a Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sicrhau na chaiff cynghorwyr eu hatal rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau lle maent wedi mynegi barn yngylch materion cysylltiedig ("rhagderfyniad");
- ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi datganiadau polisi yngylch tâl uwch weithwyr;
- diddymu dyletswyddau awdurdodau lleol i hyrwyddo dealltwriaeth o ddemocratiaeth leol a chynllunio ar gyfer ymdrin â deisebau;
- ei gwneud yn ofynnol bod pleidlais yn cael ei chynnal ar yr holl gynigion ar gyfer Atodiadau Ardrethi Busnes, a rhoi cyfle i awdurdodau lleol gynnig gostyngiadau ar Ardrethi Busnes yn ôl disgrifiwn;
- newid y ffordd y caiff awdurdodau tai lleol gyflawni'r brif ddyletswydd digartrefedd o dan *Ddeddf Tai 1996*.

Roedd y Mesur Seneddol gwreiddiol hefyd yn cynnwys darpariaethau yn gwneud Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol yn y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd y rhain yn cynnwys darpariaethau atebolwydd tâl awdurdodau lleol, y diddymiadau sy'n berthnasol i ddemocratiaeth leol a'r darpariaethau ar gyfer digartrefedd. Cafodd y Cynnid Cydsyniad Deddfwriaethol ei basio gan y Cynulliad ar 8 Chwefror 2011. Dywedodd Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol:

This is a procedural motion, namely a legislative consent motion, and I move it as the lead Minister and the conduit between the Westminster Government and the Assembly Government on this specific Bill. Thank you for the opportunity to explain the background to this LCM in relation to the Localism Bill, Llywydd. We have had an active discussion with the UK Government on the contents of the Bill and areas of particular interest to Welsh Ministers. The LCM is required because several of the Bill's provisions fall within the Assembly's legislative competence in relation to devolved areas. The consent motion refers to a number of relevant provisions in the Localism Bill: clauses 21 to 26 look at local government pay accountability; clauses 27 to 28 abolish the duty to promote local democracy and the petitions duty; clauses 124 to 125 consider the discharge of homelessness duties in the private rented sector; and clause 150 transfers functions from the Office for Tenants and Social Landlords to the Homes and Communities Agency. The Assembly Government holds the view that an LCM is required on the issues identified.⁵

Yn dilyn gwelliannau i'r Mesur Seneddol wrth iddo fynd drwy Dŷ'r Cyffredin, cafodd Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ei basio yn y Cynulliad ar 14 Mehefin 2011.

⁵ Y Cofnod, 8 Chwefror 2011,

Roedd y Mesur Seneddol yn cynnwys darpariaethau yn gymwys i Awdurdodau Tân ac Achub yn Lloegr i ddarparu pŵer cyffredinol mewn cysylltiad ag arfer eu swyddogaethau a dibenion sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny. Roedd hefyd yn cynnig rhoi pwerau cyfyngedig iddynt godi tâl am eu gwasanaethau. Cafodd cyfres gyfan o welliannau eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU i ymestyn y darpariaethau hyn i Gymru ar ôl i gymhwysedd deddfwriaethol dros y Gwasanaeth Tân ac Achub gael ei drosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol o ganlyniad i'r refferendwm. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn datgan:

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU gan mai dyma'r dull deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur o alluogi'r darpariaethau hyn i ddod yn gymwys yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd, a chan y bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno deddfwriaeth briodol sy'n gydnaws â blaenorriaethau a phryderon Cymru.⁶

Bydd y Mesur Seneddol hefyd yn rhoi pwerau is-ddeddfwriaeth ychwanegol a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchymynion a fydd yn addasu deddfwriaeth gyfredol gyda'r bwriad o gael gwared ar gyfyngiadau a allai, fel arall, gyfyngu ar bŵer cyffredinol newydd yr Awdurdodau Tân ac Achub. Mae'r rhain yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru orchymyn diwygio, diddymu, dirymu neu ddatgymhwys o darpariaethau statudol sy'n rhwystro'r Awdurdodau Tân ac Achub perthnasol neu'n cyfyngu ar eu gallu i arfer y pŵer cyffredinol neu'n gorgyffwrdd â'r pŵer cyffredinol hwnnw. Mae pŵer hefyd i rwystro Awdurdodau Tân ac Achub rhag gwneud unrhyw beth a nodir yn y gorchymyn neu ei wneud yn ddarostyngedig i amodau. Nododd Gwasanaethau Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru pa mor newydd yw'r trefniadau newydd hyn sy'n gymwys i Orchymynion yn y rhan hwn o'r Mesur Seneddol.

Yr hyn sy'n newydd ynglŷn â'r trefniadau o ran gorchymynion sy'n ymwneud â'r Awdurdodau Tân ac Achub o dan yr adran 5C newydd yw bod yn rhaid i Weinidogion Cymru osod memorandwm i gyd-fynd â gorchymyn drafft sy'n cael ei osod gerbron y Cynulliad, gan gynnwys yn y memorandwm hwnnw argymhelliaid rhesymedig pa un âi'r weithdrefn negyddol, gadarnhaol neu uwchgadarnhaol y dylid ei defnyddio. Bydd modd i'r Cynulliad wneud penderfyniad fesul achos. Gwneir hyn gan y Cynulliad o fewn 30 diwrnod (heb gynnwys cyfnodau toriad neu ddiddymiad) ar ôl gosod y gorchymyn drafft, gan bennu âi'r weithdrefn gadarnhaol neu uwchgadarnhaol y dylid ei defnyddio. Os na bennir gofyniad o'r fath, defnyddir y weithdrefn negyddol fel mater o drefn.

Penderfyniad gan y Cynulliad neu argymhelliaid gan un o bwyllgorau'r Cynulliad fydd yn pennu pa un âi'r weithdrefn gadarnhaol neu uwchgadarnhaol y dylid ei defnyddio. Mae'r cymalau newydd yn amlinellu manylion y gweithdrefnau amgen hyn a'r terfynau amser perthnasol.⁷

⁶ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lleoliaeth*, LCM-LD8550, Mehefin 2011.

⁷ Y Gwasanaethau Cyfreithiol, *Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ynglŷn n â'r Bil Lleoliaeth*, Papur Briffio Cyfreithiol, Mehefin 2011.

Bydd y pŵer i godi tâl ar ffurf Adran 18A newydd i'w osod yn *Neddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004*, a bydd yn ddarostyngedig i gyfyngiadau a nodir yn y Ddeddf. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw na chaniateir codi tâl am ddiffoddyddion Tân, nac am ddiogelu bywyd ac eiddo mewn Tân, ac eithrio tanau "ar y môr neu o dan y môr". Unwaith eto, mae gorchymyn yn gwneud pwerau i Weinidogion Cymru ddatgymhwysô'r pŵer i godi tâl mewn cysylltiad â gweithgareddau o fath arbennig neu am gyfnod arbennig.

Wrth ymateb i gwestiwn am y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Mehefin, dywedodd Carl Sargeant:

Turning to today's legislative consent motion in detail and the issues relating to the fire and rescue authorities, the general power of competence for FRAs will allow them the freedom to do whatever they consider appropriate to achieve a beneficial outcome for the emergency services. You are quite right to say that the power to charge has existed in the past, but this Bill provides an opportunity to make slight changes. The core functions of the fire and rescue services are fire safety, firefighting, rescue and protection in relation to road traffic accidents and other emergencies specified by Order of the Minister. They remain processes whereby nocharges will be placed upon a person. However, these powers will give fire and rescue authorities the opportunity to enter into joint ventures with other emergency service providers and joint commercial ventures to develop redundant fire station buildings and so on. It will give them greater flexibility to deliver for their communities.

On section 89 regarding provision and assistance for community groups, the community right to buy is intended to provide new powers to communities to help them to save local facilities and buildings that offer potential for community use. These buildings could include the local shop or village pub, disused factory or school. County councils and county borough councils in Wales will have the right to identify the property assets that they feel are of particular value. This legislative consent motion will place a power, not a duty, on the Minister, so funding will be around the power to give and seek advice, as opposed to placing a duty on the relevant Minister.⁸

Cafodd cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol ei basio gan y Cynulliad ar 12 Gorffennaf 2011 yn deillio o welliannau pellach Llywodraeth y DU i'r Bil. Roedd yn cyfeirio at gynlluniau blaendal tenantiaeth ac, yn ail, at drwyddedu tai amlfeddiannaeth.⁹

Cafodd y Mesur Seneddol ei basio gan Dŷ'r Cyffredin ar 18 Mai ac ar hyn o bryd mae'n mynd drwy gyfnod pwylgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Gellir gweld crynodeb o'r cymalau sy'n berthnasol i Gymru yn **Atodiad 1**.¹⁰

⁸ Y Cofnod, 14 Mehefin 2011

⁹ Y Cofnod, 14 Gorffennaf 2011

¹⁰ [Bil Lleoliaeth 2011, fel y daeth o Dŷ'r Cyffredin ar 19 Mai 2011 \[HL Bill 71\], Nodiadau Esboniadol](#)

3. Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus [HL]

3.1. 2.1. Y Mesur Seneddol

Mae'r *Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus* yn Fesur Seneddol i alluogi. Mae hyn yn golygu na fydd, yn ddo'i hun, yn gwneud unrhyw newidiadau i gyrrf cyhoeddus. Gellir gweld papur y Gwasanaeth Ymchwil ar y bil gwreiddiol yma.

Bydd yn:

- creu fframwaith cyfreithiol a fydd yn galluogi adrannau Llywodraeth y DU i weithredu'r mwyafrif o'r diwygiadau i gyrrf cyhoeddus y mae angen deddfwriaeth i'w gwneud nad ydynt wedi'u cynnwys eisoes mewn Mesurau Seneddol adrannau eraill.
- creu pwerau deddfwriaethol sy'n galluogi Gweinidogion i ddiddymu neu uno cyrff; addasu trefniadau cyfansoddiadol neu ariannol corff; neu drosglwyddo ei swyddogaethau i fan arall.
- rhoi'r pwerau angenrheidiol i Ysgrifenyddion Gwladol wneud newidiadau i'w cyrff gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth pan fyddant yn barod i wneud hynny.

Mae'r Mesur Seneddol yn berthnasol i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Gall Gorchymyn a wneir o dan y Mesur sy'n addasu deddfwriaeth fod yn berthnasol hefyd i'r gwledydd datganoledig.

Mae'r Mesur Seneddol wedi cwblhau ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi lle roedd yn destun gwelliannau sylweddol a chafodd ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Mai 2011. Cafodd y Mesur ei Ail Ddarlleniad ar 12 Gorffennaf 2011.

Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi **papur ar y Mesur Seneddol** fel y cafodd ei ddiwygio yn Nhŷ'r Arglwyddi.¹¹

3.2. Uno Cyrff Amgylcheddol

Mae Cymal 13 yn nodi pŵer Gweinidogion Cymru i gyflwyno gorchymynion sy'n addasu rhai cyrff amgylcheddol cyhoeddus yng Nghymru:

- Cyngor Cefn Gwlad Cymru;
- swyddogaethau datganoledig Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru;
- y Comisiynwyr Coedwigaeth; a
- swyddogaethau Pwyllgor Llifogydd ac Arfordirol Cymru.

¹¹ Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi, *Public Bodies Bill* [Bill 188 of 2010-12], Papur Ymchwil, 11/50, 13 Mehefin 2011

Mae Cymal 14 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiddymu'r cyrff cyhoeddus a ganlyn:

- pwylgorau cynghori anhedd-dai amaethyddol;
- pwylgorau cyflogau amaethyddol;
- y Pwyllgor Ymgynghorol Gwarchod yr Amgylchedd;
- a'r pwylgor cynghorol lleol a rhanbarthol ar bysgodfeydd.

Rhaid cael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol am orchymyn o dan gymalau 13 neu 14 sy'n trosglwyddo swyddogaethau i Asiantaeth yr Amgylchedd neu sy'n rhoi swyddogaeth iddi.

Mae Cymal 20 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchymynion o dan y ddeddfwriaeth gan Weinidogion Cymru. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru osod gorchymyn draft a dogfen esboniadol.

Wrth siarad ar ran y Llywodraeth yn'r Arglwyddi, esboniodd yr Arglwydd Henley bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cais am y cymalau hyn:

to enable them to give effect to possible institutional changes flowing from their ongoing review of how environmental policies are delivered in Wales. This review is linked to wider policy proposals to develop a more integrated ecosystems approach to managing the natural environment in Wales.¹²

Ar 8 Mawrth 2011, pasiodd y Cynulliad Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a oedd yn caniatáu i Lywodraeth y DU gyflwyno gwelliannau i'r Mesur Seneddol mewn materion datganoledig. Dywedodd Prif Weinidog Cymru wrth y Cyfarfod Llawn:

The UK Government has tabled an amendment to clause 9 of the Bill so that any Order that is made by a UK Minister under clauses 1 to 6 that engages the Assembly's legislative competence will require the Assembly's consent, thus giving the Assembly a full opportunity to consider the implications of any such proposals. Prior to the Bill's being introduced in the House of Lords in October, we agreed with the UK Government the inclusion of Order-making powers in clauses 13 and 14 to enable Welsh Ministers to modify and transfer the functions of the Countryside Council for Wales, the Environment Agency, and the Forestry Commission. We have since agreed Government amendments to extend those powers to regional flood and coastal committees.

The UK Government has also agreed to table amendments that remove from Schedules 1 to 6 to the Bill all bodies for which Welsh Ministers alone are responsible, instead giving Welsh Ministers comparable Order-making powers in relation to those bodies. The bodies concerned include the Welsh national park authorities and internal drainage boards that are wholly, or mainly, in Wales. The inclusion of these powers in the Bill will enable Welsh Ministers to pursue a more integrated approach to delivering environmental policies in Wales.¹³

¹² Trafodion Ty'r Arglwyddi, 4 Ebrill 2011 c.1542

¹³ Y Cofnod, 8 Mawrth 2011

Dyweddodd y Prif Weinidog hefyd:

During the parliamentary passage of the Bill, additional safeguards have been proposed regarding the consultation and scrutiny of Orders made under the Bill. As a result, Orders that are made under this Bill will be subject to the superaffirmative procedure. This will equally apply to Orders that are made by Welsh Ministers, requiring a draft Order to be laid before the Assembly following a 12-week consultation on the Order.¹⁴

Fodd bynnag, yn Nhŷ'r Arglwyddi, mynegodd yr Arglwydd Rowlands, un o Arglwyddi'r blaid Lafur, bryderon mai gwell fyddai rhoi pŵer Gorchymyn Gweinidogion Cymru i'r Cynulliad, yn hytrach na'r Senedd:

What is remarkable is that here we are, post referendum, with power having been transferred to legislate in Cardiff on this and other issues, yet in a Bill of this House we are writing out in detail the procedures that Welsh Ministers have to go through to justify and consult. In other words, we are writing into Welsh Ministers' responsibilities the super-affirmative procedures that we are applying to UK Ministers. Putting aside the general merits of the issue, I think that it is quite extraordinary that at this moment in time we are seeking to write into a Bill a remarkable clause that lays out in great detail the responsibilities of Welsh Assembly Ministers to consult. Again, I respectfully suggest that that should be the decision of the Assembly.¹⁵

Mae'r Mesur Seneddol hefyd yn gosod cyfyngiadau ar Weinidogion Cymru:

- Mae Cymal 21 yn datgan na chaiff y pwerau gwneud gorchmynion, a gaiff eu cynnwys yn y Mesur Seneddol, eu defnyddio i greu nac i awdurdodi creu pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, pŵer mynediad trwy rym, chwilio neu atafaeliad, neu bŵer i gymhell rhoi tystiolaeth. Nid yw hyn yn rhwystro pŵer rhag cael ei ddiddymu a'i aildeddfu.
- Mae Cymal 22 yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad elusen neu berson arall nad yw, fel arall, yn arfer swyddogaethau cyhoeddus oni bai eu bod wedi cydsynio. Ni chaniateir i orchymyn drosglwyddo na dirprwyo swyddogaeth fel y nodir yn isadran 3 i berson nad yw, fel arall, yn arfer swyddogaethau cyhoeddus. Y swyddogaethau yn isadran 3 yw: swyddogaeth tribynlys wrth arfer pŵer barnwrol y wlad; pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth; pŵer mynediad trwy rym, chwilio neu atafaeliad; pŵer i gymhell rhoi tystiolaeth; neu unrhyw swyddogaeth arall a fyddai, o anghenraíd yn ymyrryd â rhyddid unigolyn neu'n cael effaith ar y rhyddid hwnnw.
- Mae Cymal 23 yn rhoi cyfyngiadau ar greu tramwydd troseddol drwy orchymyn o dan y Mesur Seneddol. Ni chaiff gorchmynion o dan y ddeddfwriaeth, mewn cysylltiad â throsglwyddo nac addasu unrhyw swyddogaethau, creu nac awdurdodi creu tramwydd troseddol lle gellir rhoi gosb am y drosedd drwy garcharu neu roi dirwy, sydd yn uwch na rhai

¹⁴ Ibid.

¹⁵ Dadleuon Tŷ'r Arglwyddi, 4 Ebrill 2011 c.1546

cyfyngiadau penodol. Nid yw hyn yn rhwystro rhag diddymu ac ailddeddfu trosedd.

3.3. S4C

Mae S4C wedi cael ei symud o Atodlen 4 i'r Mesur Seneddol (fel corff, lle y gall Gweinidogion wneud Gorchymyn i addasu trefniadau ariannu) i Atodlen 3. Cafodd ei rhestru hefyd yn Atodlen 7 fel corff y gellir ei symud i Atodlenni eraill lle y gallai fod yn destun diddymiad, uno neu newidiadau i'w threfniadau cyfansoddiadol gan Orchymyn Gweinidogol. Fodd bynnag, cytunodd Llywodraeth y DU ar welliant a chafodd Atodlen 7 ei thynnu yn ôl.

Yn y ddadl cyfnod Adrodd ar 28 Mawrth 2011, cynigiodd yr Arglwydd Wigley welliant (29A) gyda'r gobairt o gyfyngu ar bwerau gweinidogion i addasu trefniadau cyfansoddiadol teledu Cymraeg, Sianel Pedwar Cymru (S4C), pe bai Gwelliant 34B, a gynigiwyd gan yr Arglwydd Roberts o Gonwy, yn cael ei gytuno. Effaith 34B yw ychwanegu S4C at Atodlen 3: *the list of public bodies whose constitutional arrangements ministers have power to modify*. Ei ddadl oedd y byddai hyn yn hwyluso gweithredu'r newidiadau a fwriadwyd ar gyfer llywodraethu ac ariannu S4C. Roedd yr Arglwydd Wigley yn pryderu am annibyniaeth S4C o'r BBC o dan y trefniadau arfaethedig. Gorchfygodd Dŷ'r Arglwyddi Welliant 29A o 197 o bleidleisiau yn erbyn 162 - mwyafrif o 35 i'r Llywodraeth. Cytunodd Aelodau Tŷ'r Arglwyddi heb bleidleisio ar Welliant 34B.¹⁶

Ar 11 Gorffennaf, cyhoeddodd y Gwir Anrhydeddus Jeremy Hunt AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon, Ddatganiad Ysgrifenedig cyn dadl yr Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin. Roedd y Datganiad hwn yn nodi:

It is now the Government's intention to table an amendment after Second Reading of the Public Bodies Bill which will add the relevant provision for removing the RPI/funding link to the face of the Bill, instead of in schedule 4, as at present. The decision to reduce payments to S4C was taken as part of the comprehensive spending review in line with efforts to reduce the fiscal deficit as early as possible. It predated the requirement to consult on orders which was added to the Public Bodies Bill at Committee Stage in the House of Lords. However, the implication is that the Government would not be able to consult meaningfully in relation to the changes to funding arrangements as would have been required by clause 10 of the Bill.

This amendment does not impact on the Government's commitment to consult publicly on changes to the governance arrangements to S4C. It is simply a change to the proposed legislative mechanism by which funding changes will be made. Indeed, it gives Parliament

¹⁶ Dadleuon Tŷ'r Arglwyddi, 28 Mawrth 2011, Colofnau 1004-1022

the opportunity to debate the change as part of the passage of primary legislation. This amendment will also give greater clarity and assurance on the Government's commitment to S4C in the long term. The new clause will for the first time set in statute a requirement that S4C receives sufficient funding for it to be able to fulfil its statutory, and vitally important, role as an independent Welsh language broadcaster.

As S4C remains listed in schedule 3 of the Bill, which provides for the power to modify constitutional arrangements, there is still the requirement under clause 10 of the Bill to consult on the order that will change the broadcaster's governance arrangements. The Government will make an announcement about this consultation in due course. In the interim, discussions with S4C and the BBC Trust on the details of the partnership model are ongoing, and progress is encouraging following the appointment of the new chair of S4C.

I should like to reiterate that there is no change to the Government's unerring commitment to a strong future for Welsh language programming and to S4C as an independent service. The Government are committed to ensuring that S4C will be funded at a level sufficient to ensure that it can fulfil its statutory remit and we intend to put this expectation on the statute book so that it is a legal requirement. Furthermore, the Government have also committed to a review of S4C's strategy and finances before the end of the comprehensive spending review period, in order to inform future funding levels for S4C and to ensure that the new partnership with the BBC represents the best model for the long-term stability and growth of S4C.¹⁷

3.4. Gwelliannau eraill

Fel y nodir isod, cafodd y Mesur Seneddol ei ddiwygio'n helaeth wrth fynd drwy Dy'r Arglwyddi. Mae'r gwelliannau eraill sydd o ddiddrodeb i Gymru yn cynnwys:

- Gwelliannau i gael cydsyniad seneddau a chynulliadau datganoledig yn hytrach na'r Gweinidogion datganoledig cyn gwneud Gorchmynion o fewn cymwyseddau'r cyrff hynny. Mae Cymal 9 yn cyfyngu ar bwerau Gweinidogion i wneud gorchmynion mewn cysylltiad â materion datganoledig. Mae'n dynodi y byddai angen cydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon ar gyfer gorchymyn o dan gymalau 1 i 5 pe bai'n gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd y weinyddiaeth ddatganoledig berthnasol neu pe bai'n addasu swyddogaethau rhai deiliaid swyddi o fewn y weinyddiaeth.
- cafodd y Llywodraeth ei threchu ar welliant i ddileu "Chief Coroner, Deputy Chief Coroners, Medical Advisers to the Chief Coroner and Deputy Medical Advisers to the Chief Coroner" o Atodlen 1 i'r Mesur Seneddol. Cyflwynwyd y gwelliant gan Farwnes Finlay o Landaf, arglywyddes o'r croesfeinciau.
- cafodd y Llywodraeth ei threchu hefyd ar welliant i ddileu Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr o Atodlen 1.

¹⁷ HC Debates, 11 July 2011, col2WS-3WS

- Cafodd gwelliant ei basio i roi'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd a'r Cyngor Cyfiawnder Sifil yn Atodlen 2.
- Mae'r holl gyrff y cyfeirir atynt yn yr atodlen hon, bellach, yn ddarostyngedig i gymal machlud o bum mlynedd, sy'n golygu bod yr awdurdod i'w diwygio yn gyfyngedig i'r Senedd bresennol a rhaid i unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol adnewyddu'r ddeddfwriaeth neu basio ei deddfwriaeth ei hun.

Methodd gwelliant i ddileu Consumer Focus o'r Mesur Seneddol, ond dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cyfarfod Llawn:

with regard to Consumer Focus. I can confirm that the UK Government has confirmed that it would support bespoke arrangements in the devolved administrations if proposals were forthcoming. I wrote to Francis Maude on 17 February to request a UK Government amendment to give Welsh Ministers an Order-making power to establish a new body to take on consumer protection functions in Wales, including any functions of the National Consumer Council transferred to the Welsh Ministers under the Bill. We look forward to a positive response with regard to that.¹⁸

Yn ystod Ail Ddarlleniad y Mesur yn Nhŷ'r Cyffredin dywedodd Mark Williams, yr AS dros Geredigion:

Members on the Government Benches have spoken about Citizens Advice and the new functions it would assume from Consumer Focus. Again, in Wales this issue is particularly pressing because the current structure of Citizens Advice does not lend itself to Welsh governance. There is a separate structure in Scotland, which allows for Scottish matters to be looked at differently, but that is not the case in Wales, where policy work is led from London. Consumer Focus Wales wants an amendment led by the Department for Business, Innovation and Skills to give Assembly Ministers the power to determine the structure they want—a power not to acquire new powers, but to determine a Welsh structure.¹⁹

¹⁸ Y Cofnod, 8 Mawrth 2011.

¹⁹ Dadleuon Ty'r Cyffredin, 12 Gorffennaf 2011, col 234

4. Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol

Cafodd y *Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol* ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Tachwedd 2010. Gellir gweld papur y Gwasanaeth Ymchwil ar y Mesur Seneddol gwreiddiol [yma](#).

Mae'r darpariaethau allweddol yn y Bil yn cynnwys:

- disodli awdurdodau'r heddlu gan gomisiynwyr heddlu a throseddau a gaiff eu hethol yn uniongyrchol. Y bwriad yw cyflwyno hyn o fis Mai 2012;
- gwneud newidiadau i *Ddeddf Trwyddedu 1993* er mwyn rhoi rhagor o bwerau i awdurdodau lleol a'r heddlu ymdrin â mannau sy'n achosi problemau;
- cyflwyno system o waharddiadau dros dro ar gyfer sylweddau seicoweithredol newydd - y rhai 'anterth cyfreithlon' fel y'u gelwir, fel GBL a BZP - tra mae arbenigwyr annibynnol yn ystyried y materion iechyd;
- adfer yr hawl i gynnal protestiadau di-drais o amgylch y Senedd, gan sicrhau, hefyd, bod pawb yn gallu cael mynediad at Parliament Square drwy ddiddymu adrannau 132-138 o *Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu (SOCPA) 2005* a gwahardd gwersylloedd a gweithgareddau aflonyddol eraill ar Parliament Square;
- newid y broses o gyhoeddi warant arrestio preifat ar gyfer troseddau awdurdodaeth cyffredinol.

Nid yw plismona na thrwyddedu, sef y prif feysydd polisi a gaiff eu cwmpasu gan y Mesur Seneddol, wedi'u datganoli i Gymru. Fodd bynnag, mae rhai cymalau yn darparu ar gyfer trefniadau penodol i Gymru, yn nodedig i Aelodau'r Cynulliad gael eu penodi gan Weinidogion Cymru i bob Panel Heddlu a Throseddau. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn awgrymu y byddai'r penodiadau hyn yn amodol ar eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond ymddengys nad oes darpariaeth ar gyfer hyn ar wyneb y Mesur Seneddol.

Fodd bynnag, roedd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi gwneud datganiad ym mis Hydref 2010 a oedd yn nodi gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i'r cynigion i greu comisiynwyr yr Heddlu. Mae'r Mesur Seneddol yn cynnwys cynigion i sefydlu pwylgorau o awdurdodau lleol ar y cyd ym mhob un o ardaloedd yr heddlu (sef Panelau Heddlu a Throseddau) er mwyn craffu ar y Comisiynwyr Heddlu. Roedd gan y Cynulliad eisoes y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud deddfau i ddarparu ar gyfer pwylgorau awdurdodau lleol ar y cyd i gael eu sefydlu at ddibenion penodol, a dyna pam roedd angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Felly, er nad oedd Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, dyna oedd yn ei gyflwyno. Dywedodd y Gweinidog:

This is the final legislative consent motion for today, on the more difficult issue facing us, relating to the proposals for police and crime commissioners. Members will be aware that the Police Reform and Social Responsibility Bill currently before Parliament will abolish police authorities and replace them with directly elected police and crime commissioners. Members will also know that the Welsh Assembly Government is fundamentally opposed to these proposals in principle. I made our position clear in my statement to Members in October last year, and do not intend to repeat our objections in detail today, except to say that it remains our view that the case for change has not been made by the Westminster Government.²⁰

Dyweddodd y cynnig:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â Phanelau'r Heddlu a Throseddau yn Rhan 1 o'r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 30 Tachwedd 2010, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.²¹

Y bleidlais oedd 17 o blaid, 15 yn ymatal, a 23 yn erbyn, gyda'r Cabinet a'r Dirprwy Weinidogion yn ymatal.

Ar ôl i'r Cynulliad wrthod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, roedd nodyn ar fewnrwyd y Cynulliad yn datgan:

Gan fod y Cynulliad bellach wedi gwrtihod derbyn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Mesur Seneddol hwn, Llywodraeth Cymru sydd i benderfynu sut i ymateb. **Mae canllawiau Llywodraeth y DU i Adrannau Whitehall yn nodi, os na fydd Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol, 'the UK Government would, subject to collective agreement being secured, need to table an appropriate amendment removing the relevant provisions before the Bill reaches its final stage in the House of introduction.'** [Pwyllsais y Gwasanaeth Ymchwil] Ond mae hwn yn dir na throediwyd arno eto gan nad yw'r Cynulliad, Senedd yr Alban na Chynulliad Gogledd Iwerddon wedi gwrtihod cymeradwyo Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, neu'r hyn sy'n cyfateb iddo, o'r blaen.

Nid oes rhwystr cyfreithiol sy'n atal y Swyddfa Gartref rhag bwrw ymlaen â'i deddfwriaeth arfaethedig ar Banelau'r Heddlu a Throseddau. Mae Senedd San Steffan yn parhau i fod â goruchafiaeth hyd yn oed mewn perthynas â'r meysydd gwneud deddfwriaeth a ddatganolwyd. Ond byddai penderfyniad i fwrw ymlaen i ddeddfu ar faes datganoledig yn erbyn dymuniadau deddfwrfa ddatganoledig yn gam digyffelyb a byddai'n codi materion pwysig ynghylch datganoli, nid yn unig mewn perthynas â Chymru, ond hefyd mewn perthynas â'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn lle hynny, byddai'n agored i Lywodraeth y DU dderbyn penderfyniad y Cynulliad drwy ddiwygio'i Mesur i gadw'r egwyddor bod yn rhaid i Comisiynwyr yr Heddlu yng Nghymru fod yn destun trefniadau craffu lleol, gan adael i'r trefniadau manwl ar gyfer sut y gwneir y gwaith hwnnw gael eu cynnwys mewn cyfreithiau a wneir gan y Cynulliad.²²

Mae'n naturiol bod safiad y Cynulliad wedi cael ei drafod wrth i'r Mesur Seneddol gael ei drafod yn y Senedd. Dywedodd y Gwir Anrhydeddus Paul Murphy AS:

Not very long ago, the National Assembly for Wales took the unprecedented decision not to give legislative consent to part 1. That, in my experience—which goes back a few years in

²⁰ Y Cofnod, 8 Chwefror 2011

²¹ Ibid.

²² [Mewnrwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, 10 Chwefror 2011 \[fel ar 11 Chwefror 2011\]](#)

such matters-is entirely unprecedented. It has never happened before. As a consequence, the Communities and Culture Committee of the National Assembly has asked for the deferment of part 1. Its headline recommendation reads:

"We recommend that the Welsh Government has dialogue with the UK Government to persuade it to defer introducing those aspects of the bill related to the abolition of Police Authorities, and establishment of Police Commissioners and Police Crime Panels in Wales, at least until the effectiveness of their impact in England has been assessed."

That is not a million miles away from new clause 4, which asks for the deferral of the commencement until such an assessment has been made by HMIC. That is why I support the new clause.²³

Barn Mr Murphy oedd bod y mater bellach yn ymwneud â'r berthynas rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau datganoledig. Awgrymodd i'r Gweinidogion y byddai Llywodraeth Cymru yn galw'r Pwyllgor Gweinidogol ar y cyd, sydd yn ei le i sicrhau bod unrhyw anghydfod rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau datganoledig yn cael ei ddatrys.²⁴

Yn ddiweddarach, dywedodd Nick Herbert AS, y Gweinidog plismona,

The right hon. Member for Torfaen [Mr Murphy] referred to the National Assembly for Wales Communities and Culture Committee request for a deferment of the provisions and asked whether the Government have held discussions with the Welsh Assembly Government. I must reassure him that, right from the beginning, we have sought such discussions and to respect the devolved arrangements in Wales. I have met the Minister responsible, as has the Home Secretary, and our officials have had a great deal of discussion.

The Assembly Government have made it clear that they do not favour police and crime commissioners, but of course, policing is a reserved matter, and the House of Commons has decided that police and crime commissioners should apply in England and Wales—that is what the Bill says. The question is whether we can find arrangements that respect those aspects of the devolution settlement that are within the competence of the Welsh Assembly.....

I very much regret that the Welsh Assembly did not pass that [Legislative Consent] motion, but I repeat that we have at all times sought to address the Welsh Assembly Government's proper concern, while recognising that it is equally proper that the House of Commons decides on that reserved matter. Saying that we must always follow a request from the devolved Parliament or one of the Assemblies for a deferment is tantamount to saying that the matter is no longer reserved. For so long as the matter is reserved, I believe that the right decisions have been taken.²⁵

Wrth ddisgrifio'r penderfyniad i wrthod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, dywedodd y Gweinidog Plismona ei fod yn benderfyniad hunan-drechiad:

²³ Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, 30 Mawrth 2011, Col 386

²⁴ Ibid. col 387

²⁵ Ibid. colofnau 392-3

The motion sought to put in place the special arrangements for police and crime panels in Wales, on which the Welsh Assembly Government would have representation. I emphasise to the right hon. Gentleman that we really tried to reach an arrangement and to respect the devolution settlement.²⁶

Wrth ymateb i ymyrraeth gan Elfyn Llwyd AS, yn ystod y Trydydd Darlleniad, esboniodd y Gwir Anrhydeddus Theresa May AS, yr Ysgrifennydd Cartref, sut y byddai'r Mesur Seneddol yn cael ei ddiwygio i ddileu'r angen am Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Mr Llwyd: The reason they did not endorse it is quite simply because they do not believe in the idea of a directly elected police commissioner. They did not want the panels and so voted against the proposal. Unfortunately, this place decided to ride roughshod over their wishes and the wishes of democratically elected people in Wales, thus showing little of the respect agenda and acting in a hugely undemocratic way.

Mrs May: That is not correct. It is precisely because we respect the Assembly's decision that we are removing police and crime panels from local government structures in Wales. The Assembly had the opportunity to put in place a legislative consent motion that would have enabled that to take place. Such a motion was tabled by the Welsh Assembly Government, but they then chose not to support it, even though they had put it forward. As a result, the view of the Welsh Assembly was that police and crime panels should not form part of the local government structure in Wales. Instead, the PCPs will be freestanding bodies.

I want to make it clear that in taking a power to appoint those freestanding bodies I will not be telling, instructing or forcing any authority to do anything. I will invite local authorities to nominate a member to the PCP for each force area, and if an authority fails to nominate a member, I will invite members directly while having regard to the political balance within the force area. I think that the amendments will ensure that the appropriate checks and balances on police and crime commissioners can apply in all force areas in England and in Wales.²⁷

Fodd bynnag, ar ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi, cafodd Llywodraeth y DU ei threchu ddwywaith. Yn arbennig, cafodd Llywodraeth y DU ei threchu ar gynnig a gyflwynwyd gan un o Arglwyddi'r Democratiaid Rhyddfrydol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gomisiynwyr gael eu penodi gan banel yn hytrach na chael eu hethol. Cafodd ei gymeradwyo gan yr Arglwyddi gyda mwyafrif o 12. Dywedodd llefarydd ar ran y Swyddfa Gartref y byddai'n ceisio gwneud iawn am hyn pan fydd y Mesur Seneddol yn dychwelyd i Dŷ'r Cyffredin, er y bydd yn ystyried y drafodaeth yn Nhŷ'r Cyffredin. Cafodd y Mesur ei Drydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 20 Gorffennaf 2011.

²⁶ Ibid.

²⁷ Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, 31 Mawrth 2011, col 326

5. Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd y DU

Cafodd *Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd y DU* ei Ddarlleniad Cyntaf yn San Steffan ar 19 Ionawr 2011. Mae'n cyflwyno newidiadau pellgyrhaeddol i drefniadau sefydliadol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y GIG) yn Lloegr. Mae hefyd, fodd bynnag, yn cynnwys rhai darpariaethau sy'n gysylltiedig â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dim ond i Gymru a Lloegr y mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau a gaiff eu cynnwys yn y Mesur Seneddol yn ymestyn, ond dim ond i Loegr y maent yn gymwys. Dim ond i Gymru y mae rhai darpariaethau yn gymwys, ac eraill yn ymestyn i'r DU gyfan. Darpariaethau technegol yn bennaf oedd y darpariaethau yn ymwneud â Chymru, neu roedd y darpariaethau'n ymdrin â materion trawsffiniol. Mae darpariaethau sy'n diddymu neu'n diwygio rhai cyrff iechyd penodol hefyd yn cael effaith ar Gymru. Gellir gweld papur y Gwasanaeth Ymchwil ar y Mesur Seneddol gwreiddiol [yma](#).

Mae'r cynigion yn y Mesur Seneddol ar gyfer newidiadau i'r GIG yn Lloegr wedi bod yn rhai dadleuol, gan roi pwysau ar y Llywodraeth glymbraidd, ac ar 4 Ebrill 2011 gwnaeth y Gwir Anrhydeddus Andrew Lansley AS, y Gweinidog Iechyd, ddatganiad yn Nhŷ'r Cyffredin yn cyhoeddi y byddai toriad yn llwybr y Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol Seneddol. Cafodd y Mesur Seneddol ei Ail Ddarlleniad ar 31 Ionawr 2011 a chwblhaodd ei gyfnod pwylgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 31 Mawrth 2011.

Sefydlodd Llywodraeth y DU grŵp annibynnol i adolygu'r Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol Seneddol. Yr enw ar y grŵp oedd Fforwm Dyfodol y GIG ac roedd yn cynnwys 45 o aelodau. Cyflwynodd y grŵp adroddiad ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion i'r Llywodraeth ddydd Llun 13 Mehefin 2011.

Ar 21 Mehefin 2011, cytunodd Tŷ'r Cyffredin ar gynnig rhaglen a oedd yn ailymrwymo rhai cymalau penodol i'r Pwyllgor Mesurau Seneddol Cyhoeddus a oedd wedi craffu ar y Mesur Seneddol yn wreiddiol.

Mae Aelodau Seneddol o Gymru wedi codi cwestiynau yn y Senedd am effaith y Mesur Seneddol ar Gymru. Yn ystod cyfnod y Pwyllgor Mesur Seneddol Cyhoeddus, cafodd y Gweinidog ei holi gan Owen Smith AS am y diwygiad arfaethedig o NICE:

My final and most important point is about Wales. Wales is not mentioned in this part of the Bill. Scotland has a different system—it has the Scottish Medicines Consortium—for assessing medicines, and Wales has the All Wales Medicines Strategy Group. The reality, however, is that the AWMG is a much less well-resourced and much smaller body, which is unable to provide the enormously powerful service that NICE does in assessing all medicines. If NICE guidance does not have a mandatory effect across the board, or if there is less NICE guidance, because it is tied up with price negotiation, the AWMG will have to pick up the

tab and try to do that role for Wales. I will be interested to hear the Minister's comments on that in particular.²⁸

Ateb Paul Burstow AS, y Gweinidog, oedd:

I have saved the best for last—NICE in Wales. NICE is an England-only body, but Wales will have access to NICE products and may also contract independently with NICE for Wales-specific products. That is a devolved matter for Wales, which will be able to use the expertise of NICE, because it is well respected, under those contracting arrangements²⁹.

Ymateb Mr Smith oedd:

Owen Smith: I am grateful for that clarification. The Minister is entirely accurate in his description of the situation in legislation, but in the real world the All Wales Medicines Strategy Group and the NHS in Wales rely greatly on taking NICE guidance and applying and assessing it. In a world post value-based pricing, will NICE still provide that guidance or will its role be restricted to price setting and, in that case, will there be less NICE guidance in the public domain for the AWMSG to take advantage of?³⁰

Ymateb y Gweinidog oedd:

Paul Burstow: I do not believe that there is any reason to suppose that that will be the outcome of the changes to value-based pricing.³¹

Mae Aelodau Seneddol o Gymru hefyd wedi cyfeirio at y Mesur Seneddol mewn Cwestiynau ar Gymru. Ar 11 Mai 2011, gofynnodd Hywel Williams AS:

Hywel Williams (Arfon) (PC): What discussions she has had with ministerial colleagues and the Welsh Assembly Government on cross-border implications of the provisions of the Health and Social Care Bill.

The Parliamentary Under-Secretary of State for Wales (Mr David Jones): My right hon. Friend the Secretary of State and I have discussed the Health and Social Care Bill with ministerial colleagues and with Welsh Assembly Ministers.³²

Holodd Owen Smith AS am ddyfodol Asiantaeth Genedlaethol y Cleifion.

Owen Smith (Pontypridd) (Lab): The Minister will be aware that one of the other destabilising effects of the Health and Social Care Bill is the abolition of the National Patient Safety Agency, whose job was to monitor patient safety in England and Wales. In England its job will be taken over by the national commissioning board, but what provision has been made for transferring its responsibilities in Wales to ensure patient safety? If the job is given to the National Assembly, will extra funds be made available for the purpose?

Mr Jones: As the hon. Gentleman will know, the existing cross-border protocol is supported by an annual transfer of funds—currently £5.9 million—to the Assembly Government, and an additional payment of some £12 million was made in the last two financial years. These

²⁸ Dadleuon Pwyllgor Mesurau Seneddol Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, 29 Mawrth 2011 col 1177

²⁹ Ibid.col 1182

³⁰ Ibid.

³¹ Ibid.

³² Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, 11 Mai 2011 col 1151

matters will have to be discussed with Welsh Ministers once the new Assembly Government has been established.³³

6. Mesur Addysg Senedd y DU

Cyflwynwyd *Mesur Addysg Senedd y DU* gan y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, ar 26 Ionawr 2011. Gellir gweld papur y Gwasanaeth Ymchwil ar y Mesur Seneddol gwreiddiol [yma](#).

O ran Cymru, ceisiodd y Mesur fewnosod pedwar Mater newydd ym Maes 5 (Addysg) o Atodlen 5 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, a fyddai wedi rhoi pwerau deddfu ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y pynciau canlynol:

- mater 5.15A: Safonau proffesiynol – gan gynnwys hyfforddi, datblygu proffesiynol, rheoli perfformiad a chymwysterau;
- mater 5.15B: Ymddygiad proffesiynol, reciwtio, achosion disgyblu, cofrestru a lefelau angenrheidiol iechyd a ffitrwydd athrawon a'r gweithlu addysg ehangach;
- mater 5.15C: Achredu darparwyr hyfforddiant i athrawon a'r gweithlu addysg ehangach; a
- mater 5.6A: Cyllid i addysg neu hyfforddiant cyn-16 oed yng Nghymru

Roedd y Mesur Seneddol hefyd am ddiwygio Materion 5.15(c) a 5.16(c) i ymestyn pwerau deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i gynnwys hyfforddiant yr holl bersonau a restrir ym Mater 5.15A, ac nid dim ond hyfforddiant athrawon a chynorthwywyr dysgu arbenigol i ysgolion.

O ganlyniad i'r bleidlais gadarnhaol yn y refferendwm ar 3 Mawrth 2011, mae'r cymalau hyn wedi cael eu dileu o'r Mesur Seneddol.

Mae'r Mesur Seneddol hefyd yn cynnwys darpariaethau a fydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â chyllid myfyrwyr a darpariaethau llety mewn ysgolion a cholegau. Rhoddir swyddogaethau ychwanegol hefyd i Weinidogion Cymru o ganlyniad i ddiddymu Cyngor Dysgu Cyffredinol Lloegr (GTCE) a'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion (TDA).

Y cymalau sy'n parhau yn y Mesur, ac sy'n berthnasol i Gymru yw:

- Cymal 13, sy'n gosod gwaharddiad ar gyhoeddi gwybodaeth mewn cysylltiad â honiadau gan ddisgybl bod athro neu athrawes wedi cyflawni tramwyd troseddol, sy'n ymwneud â chyflawni troseddol, ac felly'n gymwys i Gymru a Lloegr yn yr un modd.

³³ Ibid.

- Mae Cymal 72 yn rhoi yr un pwerau i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â chyfraddau llog ar fenthyciadau myfyrwyr ag y mae yn ei roi i'r Ysgrifennydd Gwladol.
- Mae Cymal 73 yn rhoi yr un pwerau i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â ffioedd cyrsiau i fyfyrwyr rhan amser mewn sefydliadau addysg uwch ag y mae yn ei roi i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Ar 1 Mawrth 2011 pasiodd y Cynulliad gynnig cymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r cymalau a ganlyn:

- Cymal 4, sy'n gwneud darpariaeth newydd mewn cysylltiad ag eithrio disgyblion yn Lloegr, ac mae'n gwneud y gwelliannau angenrheidiol i adran 52 o Ddeddf Addysg 2002 (eithrio disgyblion) am mai dim ond yng Nghymru y bydd yn gymwys bellach.
- Mae Cymalau 14 i 17, sy'n ymdrin â diddymu'r Asiantaeth Hyfforddiant a Datblygu i Ysgolion (TDA), yn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru, mewn cysylltiad â Chymru, yr un pwerau, yn amodol ar yr un cyfyngiadau, â'r hyn oedd ganddynt cynt drwy'r TDA.
- Mae Atodlen 2 yn ehangu'r pwerau sydd gan Weinidogion Cymru i rannu gwybodaeth gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.
- Mae Cymal 42 yn gwneud yr un newid i'r diffiniad o ddarpariaeth llety yng Nghymru ag yn Lloegr, ond mae'n gwneud darpariaeth benodol bellach yng Nghymru. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gymryd camau i benderfynu a yw lles plentyn yn cael ei ddiogelu'n ddigonol a'i hybu tra mae mewn llety mewn ysgol neu goleg yng Nghymru, mewn amgylchiadau pan mae eu dyletswydd i wneud hynny wedi ei atal gan adran 87A o *Ddeddf Plant 1989*.
- Mae Cymal 44 yn ymdrin â diddymu'r pŵer i gwyno i'r Comisiynydd Lleol. Mae Adran 409 o Ddeddf Addysg 1996 yn gymwys i Gymru a Lloegr ac yn darparu ar gyfer awdurdodau lleol i ystyried cwynion am y cwricwlwm. Cafodd yr adran hon ei diddymu mewn camgymeriad ar gyfer Cymru a Lloegr gan *Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009*. Dim ond 14 o ardaloedd awdurdodau lleol yn Lloegr sydd wedi cyflwyno'r diddymiad fel rhan o wasanaeth cwynion yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol, ac effaith cymal 44 yw bod adran 409 wedi'i diddymu yn Lloegr a'i hadfer mewn cysylltiad â Chymru.
- Cymal 47 (penderfyniad taliadau a ganiateir) sydd â'r un effaith yng Nghymru ag yn Lloegr.
- Cymal 64, ynghylch diddymu'r Asiantaeth Ddysgu i Bobl Ifanc, gan fod y cymal hwn yn diddymu adrannau 68 a 69 o *Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009*, sy'n galluogi'r Asiantaeth Ddysgu i Bobl Ifanc i wneud

trefniadau â Gweinidogion Cymru ar gyfer darparu rhai gwasanaethau penodol yng Nghymru.³⁴

Cafodd cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol ei basio ar 14 Mehefin 2011 mewn cysylltiad â chymal 58, a fewnosodwyd gan welliant Llywodraeth y DU yn ystod cyfnod adrodd Tŷ'r Cyffredin. Mae'n ymwneud â lliniaru ffioedd mewn ysgolion preswyl yr Academi.

Yn ystod y ddadl, dywedodd Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addsyg:

As we understand it, no pupils currently benefit from the policy, and the State Boarding Schools' Association has stated that it is not aware of any fees being remitted since the 1990s. However, we believe that the policy should be in place and that local authorities should be clear about their responsibilities under the legislation. Therefore, I consider it to be appropriate to deal with these provisions within the Education Bill in Westminster. They are minor changes and this enables us to put the provisions in place.³⁵

Ar hyn o bryd, mae'r Mesur Seneddol yn mynd drwy gyfnod pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.

³⁴ [Education Bill fel y'i cyflwynwyd o Dŷ'r Cyffredin ar 11 Mai 2011 \[HL Bill 67\] Nodiadau Esboniadol](#)

³⁵ Y Cofnod, 14 Mehefin 2011.

Atodiad 1 Cymalau sy'n gymwys i Gymru yn y Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth [HL 71]

PENNOD 2: AWDURDODAU TÂN

AC ACHUB

9	Pwerau cyffredinol awdurdodau Tân ac achub Cymru a Lloegr penodol	
10	Awdurdodau Tân ac achub: codi tâl	Cymru a Lloegr

PENNOD 4: RHAGDERFYNIAD

14	Dangosiadau blaenorol o farn ar fater nad yw'n ymestyn i ragderfyniad ac ati	Cymru a Lloegr
----	--	----------------

PENNOD 5: SAFONAU

15	Diwygio darpariaethau presennol	Lloegr (ac awdurdodau Heddlu yng Nghymru)
16	Dyletswydd i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel	Lloegr (ac awdurdodau Heddlu yng Nghymru)
17	Codau ymddygiad gwirfoddol	Lloegr (ac awdurdodau Heddlu yng Nghymru)
18	Datgelu a chofrestru buddiannau aelodau	Lloegr (ac awdurdodau Heddlu yng Nghymru)
19	Troedd torri rheoliadau o dan adran 18	Lloegr (ac awdurdodau Heddlu yng Nghymru)
20	Diwygio adran 16 yn dilyn diddymu awdurdodau'r Heddlu	Lloegr (ac awdurdodau Heddlu yng Nghymru)
21	Darpariaeth pontio	Lloegr (ac awdurdodau Heddlu yng Nghymru)

PENNOD 6: ATEBOLRWYDD TÂL

22	Datganiadau polisi tâl uwch swyddogion	Cymru a Lloegr
23	Darpariaethau atodol yn ymwneud â datganiadau	Cymru a Lloegr
24	Canllawiau	Cymru a Lloegr
25	Penderfyniadau mewn cysylltiad â thaliadau ac ati	Cymru a Lloegr
26	Arfer swyddogaethau	Cymru a Lloegr
27	Dehongliad	Cymru a Lloegr

PENNOD 7: DIDDYMIADAU AMRYWIOL

28	Diddymu dyletswyddau mewn cysylltiad â hybu democratiaeth	Cymru a Lloegr
29	Diddymu darpariaethau ynghyllch deisebau i awdurdodau lleol	Cymru a Lloegr

RHAN 3: ARDRETHI ANNOMESTIG AC ATI

38	Balot am orfodi ac amrywiaethau penodol o'r Cymru a Lloegr atodiad ardrethi busnes	
39	Ardrethi annomestig: rhyddhad yn ôl disgrifiwn	Cymru a Lloegr

PENNOD 2: Y DRETH GYNGOR

67	Ailbrisio'r dreth gyngor yng Nghymru	Cymru yn unig
----	--------------------------------------	---------------

PENNOD: ASEDITION O WERTH
CYMUNEDOL

74	Rhestr o asedion o werth cymunedol	Cymru a Lloegr
75	Tir o werth cymunedol	Cymru a Lloegr
76	Gweithdrefn ar gyfer cynnwys tir mewn rhestr	Cymru a Lloegr
77	Gweithdrefn ar enwebiadau cymunedol	Cymru a Lloegr
78	Hysbysiad o gynnwys neu ddileu	Cymru a Lloegr
79	Adolygiad o benderfyniad i gynnwys tir mewn rhestr	Cymru a Lloegr
80	Rhestr o dir a enwebwyd gan enwebiadau cymunedol aflwyddiannus	Cymru a Lloegr
81	Cyhoeddi ac archwilio rhestrau	Cymru a Lloegr
82	Moratoriwm	Cymru a Lloegr
83	Ystyr “gwaredu perthnasol” ac ati yn adran 82	Cymru a Lloegr
84	Cyhoeddi derbyn hysbysiad o dan adran 82(2)	Cymru a Lloegr
85	lawndal	Cymru a Lloegr
86	Tâl tir lleol	Cymru a Lloegr
87	Gorfodi	Cymru a Lloegr
88	Darparu cyngor a chymorth mewn cysylltiad â thir o werth cymunedol yn Lloegr	Cymru a Lloegr
89	Darparu cyngor a chymorth mewn cysylltiad â thir o werth cymunedol yng Nghymru	Cymru a Lloegr
90	Cais y goron	Cymru a Lloegr

91	Ystyr "awdurdod lleol"	Cymru a Lloegr
92	Ystyr "perchennog"	Cymru a Lloegr
93	Dehongliad o Bennod: cyffredinol	Cymru a Lloegr

PENNOD 2: ARDOLL SEILWAITH
CYMUNEDOL

99	Ardoll Seilwaith Cymunedol: cymeradwyo rhestr taliadau	Cymru a Lloegr
100	Defnyddio Ardoll Seilwaith Cymunedol	Cymru a Lloegr

PENNOD 6: PROSIECTAU
SEILWAITH O BWYS
CENEDLAETHOL

112	Diddymu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith	Cymru, Lloegr a'r Alban
113	Darpariaeth bonito mewn cysylltiad â diddymu	Cymru, Lloegr a'r Alban
114	Datganiadau polisi cenedlaethol	Cymru, Lloegr a'r Alban
115	Pŵer i newid effaith gofyniad ar gyfer cydsyniad datblygu ar gyfundrefnau cydsyniad eraill	Lloegr a'r Alban
117	Ymgynghoriad cyn gwneud cais gydag awdurdodau lleol	Cymru, Lloegr a'r Alban
118	Diwygio dyletswyddau i roi cyhoeddusrwydd i ddatganiad ymgynghori cymunedol	Cymru, Lloegr a'r Alban
119	Hawliau iawndal am effeithiau datblygiadau	Cymru, Lloegr a'r Alban
120	Hawliau mynediad ar gyfer archwiliadau ac ati mewn cysylltiad â cheisiadau	Cymru, Lloegr a'r Alban

121	Newidiadau gweithdrefnol mewn cysylltiad â Cymru, Lloegr a'r cheisiadau am gydsyniad datblygu	Cymru, Lloegr a'r Alban
122	Cydsyniad datblygu yn amodol ar reidrwydd i gael caniatâd pellach	Cymru, Lloegr a'r Alban
123	Neiwdiadau i ofynion hysbysiadau ar gyfer caffael gorfodol	Cymru, Lloegr a'r Alban

PENNOD 7: MATERION
CYNLLUNIO ERAILL

124	Ceisiadau am ganiatad cynllunio: ystyriaethau cyllidol lleol	Cymru a Lloegr
125	Cymhwysô'r Rhan hon i'r Goron	Cymru a Lloegr
129	Dyletswyddau i bobl ddigartref	Cymru a Lloegr
130	Dyletswyddau i bobl ddigartref: diwygiadau pellach	Cymru a Lloegr
144	Rhwymedigaethau atgyweirio mewn prydlesau o saith mlynedd neu fwy	Cymru a Lloegr

PENNOD 6: MATERION ERAILL
YNGHYLCH TAI

161	Diddymu pecynnau gwybodaeth am eiddo	Cymru a Lloegr
-----	--------------------------------------	----------------

RHAN 8: CYFFREDINOL

207	Treth	Y DU
208	Ymgynghoriad cyn dechrau	Cymru a Lloegr
209	Gorchmynion a rheoliadau	Y DU
210	Pŵer i wneud gwelliannau olynol pellach	Y DU
21□	Diddymiadau a dirymiadau	Y DU

212	Darpariaethau ariannol	Y DU
213	Cyrhaeddiad	Y DU
214	Dechrau	Y DU
215	Teitl byr	Y DU